



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Teitl y Polisi	Polisi Mynediad Agored
Dyddiad Cymeradwyo	17 Hydref 2017
Corff Cymeradwyo	Y Pwyllgor Gweithredu
Fersiwn	Medi 2017
yn disodli	Polisi Cyhoeddiadau Bangor, Ionawr 2014
Dyddiad adolygu nesaf	Medi 2018
Perchen y Polisi	Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau
Prif gyswllt	Michelle Walker (Rheolwr Cadwrfa a Data Ymchwil)
Awduron	Michelle Walker Mewn ymgynghoriad â grŵp cefnogi'r Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil.

Polisi Mynediad Agored Prifysgol Bangor

1. Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn rhan o ymrwymiad Prifysgol Bangor i ragoriaeth ymchwil ac mae'n hyrwyddo'r egwyddor o ledaenu cynnyrch ei hymchwil mor eang â phosib. Mewn ymateb i ddisgwyliadau gan HEFCE, cyrff ariannu, a'r cyhoedd ehangach, mae Prifysgol Bangor yn annog ei staff i fodloni gofynion ar gyfer mynediad agored ai ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus. Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei hymchwil ar gael am ddim, ar y cyfle cyntaf, trwy gadwrfa sefydliadol PURE, er mwyn rhoi'r amlygrwydd mwyaf posib i'w hymchwil a sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posib.

2. Sail resymegol

- 2.1. Er mwyn sicrhau bod ymchwilwyr yn bodloni gofynion RCUK a chyllidwyr ymchwil eraill sydd angen mynediad anghyfyngedig ar unwaith i gynnyrch ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus
- 2.2. Er mwyn sicrhau na fydd cynhyrchion ymchwil yn anghymwys i'w cyflwyno i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ar ôl 2014
- 2.3. Er mwyn cyd-fynd â Pholisi Rheoli Data Ymchwil y brifysgol
- 2.4. Er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd i ymchwil y brifysgol
- 2.5. Er mwyn sicrhau y defnyddir cofnod a gedwir yn ganolog o gynnyrch ymchwil y brifysgol i fwydo'r holl systemau mewnol eraill.

3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- 3.1. Pob aelod staff academiaidd sy'n ymwneud â chreu a datblygu cynnyrch ymchwil
- 3.2. Myfyrwyr ymchwil sy'n ymwneud â chreu traethodau doethuriaeth a chynnyrch ymchwil

4. Amlinelliad o'r Polisi

- a) Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod staff academiaidd a phob myfyriwr perthnasol sicrhau'r canlynol:
 - 4.1. Bod manylion llyfryddol am yr holl gynnyrch ymchwil newydd yn cael eu cofnodi ar system reoli gwybodaeth ymchwil y brifysgol - PURE, er mwyn cadw cofnod cywir o weithgaredd ymchwil.
 - 4.2. Bod copïau o destunau llawn erthyglau cyfnodolion a phapurau cynhadledd (gyda rhif ISSN) yn cael eu cadw, i'r graddau y mae amodau hawlfraint yn caniatáu hynny, ynghyd â'r cofnod llyfryddol. Dylid cyflwyno'r copïau cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu derbyn a dim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi. Rhaid i'r fersiwn a gyflwynir fod yn destun terfynol wedi ei adolygu gan gymheiriaid (a adwaenir hefyd fel llawysgrif a dderbyniwyd gan yr awdur, y fersiwn ar ôl ei argraffu a'r fersiwn a dderbyniwyd).
 - 4.3. Lle bo'n berthnasol, sicrhau bod yr holl ofynion ym mholisiâu cyllidwyr allanol o ran mynediad agored a chydabyddiaeth cyllidwyr yn cael eu bodloni.
 - 4.4. Bod y gofynion o ran rheoli data ymchwil a nodir ym mholisi Rheoli Data Ymchwil Prifysgol Bangor yn cael eu bodloni
 - 4.5. Bod yr awduron yn defnyddio'r cysylltiad safonedig, "Prifysgol Bangor", ym mhob cynnyrch ymchwil er mwyn sicrhau cysylltiad clir â'r sefydliad.
 - 4.6. Bod ymchwil a gyflwynwyd fel rhan o radd uwch yn cael ei roi yn y gadwrfa sefydliadol yn unol â pharagraff 62 y rheoliadau ar gyfer [Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig, Rheoliad 03: 2015 Fersiwn 02](#)
 - 4.7. Bod cynhyrchion a gyflwynir gan y brifysgol gyda rhif ISBN yn cael eu cofnodi a bod eitemau testun llawn yn cael eu cadw.

- 4.8. Bod cyflwyno fersiynau testun llawn o ffurfiau eraill ar gynnyrch ymchwil yn y gadwrfa sefydliadol yn cael ei annog, yn amodol ar ganiatad y cyhoeddwr. Mae hyn yn cynnwys penodau o lyfrau a chyfraniadau mewn cynadleddau.
- 4.9. Disgwylir i aelodau staff gofrestru am rif adnabod ORCID ac yna nodi'r rhif yn eu proffil PURE. Mae ORCID yn darparu dynodwr digidol parhaus sy'n eich gwahaniaethu oddi wrth bob ymchwilydd arall.

b) Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

- 4.10. Sicrhau bod y cynnyrch perthnasol ar gael i'r cyhoedd trwy ei chadwrfa, PURE, yn amodol ar ganiatad a gwaharddiadau'r cyhoeddwr.
- 4.11. Bydd tîm y gadwrfa yn y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yn dilysu, diweddarau a chynnal y data er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn ddefnyddiol.
- 4.12. Cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i gydymffurfio â'r polisi hwn.
- 4.13. Mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i gyflwyno eitem ar ran aelod staff academiaidd neu fyfyrwr sy'n methu â bodloni'r gofynion hyn.

Systemau i gefnogi'r polisi

Mae gan Brifysgol Bangor system wybodaeth ymchwil ganolog, PURE, sy'n dod â gwybodaeth ymchwil o ffynonellau mewnol ac allanol ynghyd ac yn hwyluso dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â strategaethau ymchwil a chydweithredu, ymarferion asesu, cydymffurfio â gofynion mynediad agored RCUK a HEFCE ac amlygrwydd gweithgaredd ymchwil cyfredol. Bydd PURE yn gweithredu fel cadwrfa sefydliadol.

Mae Prifysgol Bangor yn rheoli grant bloc yr RCUK fydd yn talu costau mynediad agored cyhoeddiadau cymwys. Mae hyn yn agored i academyddion a myfyrwyr ymchwil a gyllidir gan yr RCUK. Gweinyddir y cynllun hwn ar sail y cyntaf i'r felin. Ni fydd arian ar gyfer cynnyrch nad ydynt wedi eu cyllido gan RCUK, ac yn yr achos hwnnw rhaid chwilio am lwybrau amgen i gyhoeddi mynediad agored. Gweler <https://www.bangor.ac.uk/library/how-to-pub-open-access.php.en>

Gall staff Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau, Swyddfa Ymchwil a Menter a Gwasanaethau TG y brifysgol gynnig cyngor ar wahanol rannau o'r polisi hwn, yn cynnwys llwybrau amgen i fynediad agored, hawlfraint a fersiynau dogfennau, dehongli polisiâu cyllidwyr, cyhoeddwr a chyfnodolion, gwrthbwysu cytundebau a gostyngiadau ar daliadau prosesu erthyglau, yn ogystal â chynghor am sicrhau cymhwysedd eitemau i'w cyflwyno i PURE a'r Fframwaith Asesu Ymchwil ar ôl 2014.

Defnyddio cofnodion a gyflwynwyd

Gall y brifysgol ddefnyddio'r cofnodion a'r cynnyrch a gyflwynwyd mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, er enghraifft at ddibenion lledaenu, monitro perfformiad mewnol yn ogystal â monitro cydymffurfiaid mynediad agored ac asesu ymchwil allanol.

Eithriadau i'r polisi

Lle ceir cyfyngiadau moesegol neu gytundebol.

Cyfrifoldeb a monitro

Y Grŵp Gorchwyl Strategaeth Ymchwil sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y polisi hwn.

Rheolwr Cadwrfa a Data Ymchwil, y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau sy'n gyfrifol am fonitro ansawdd y data a chydymffurfio â'r polisi mynediad agored.

Y Swyddog Effaith ac RCUK, y Swyddfa Ymchwil a Menter a Rheolwr Cadwrfa a Data Ymchwil, y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyllido RCUK.

Caiff cydymffurfiaeth ei fonitro gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael trwy'r system reoli gwybodaeth ymchwil, PURE.

Polisiâu a strategaethau cysylltiedig

[Polisi Cyffredin Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ar Eiddo Deallusol Cyffredin.](#)

[Polisi Rheoli Data Ymchwil Prifysgol Bangor](#)

[Strategaeth Ymchwil Prifysgol Bangor: Gwella Llwyddiant Ymchwil ym Mhrifysgol Bangor](#)

Cewch ragor o wybodaeth yn:

y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau (<https://www.bangor.ac.uk/library/OpenAccess.php.en>)

Swyddfa Ymchwil a Menter (<https://www.bangor.ac.uk/research-support/open-access-publication.php.en> a <https://www.bangor.ac.uk/research-support/ref2020.php.en>)